**Adroddiad ar gyfer:** **Y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol**

**Dyddiad y Cyfarfod:** **Ionawr 9, 2013**

**Awdur yr Adroddiad:** **Pennaeth y Gwasanaethau Archwilio Mewnol**

**Teitl:** **Cynllun Gweithredu Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol**

---

## 1. Beth mae'r adroddiad yn ymwneud ag o?

Mae'r adroddiad hwn yn darparu'r Pwyllgor â'r cynllun gweithredu diweddaraf a diweddariad ar gynnydd o ganlyniad i'r adolygiad o fframwaith llywodraethu'r Cyngor a Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2011/12.

## 2. Beth yw'r rheswm am wneud yr adroddiad yma?

Bydd y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol yn monitro Cynllun Gweithredu'r Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol yn rheolaidd yn rhan o drefniadau llywodraethu cyffredinol y Cyngor.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

- Bod y Pwyllgor yn ystyried cynnydd gyda rheoli'r gweithrediadau yng Nghynllun Gweithredu'r Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol ac yn rhoi sylwadau.
- Bod y Pwyllgor yn ystyried a oes angen adroddiadau ychwanegol neu dystiolaeth o gynnydd.

## 4. Cefndir

1. Mae Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol y Cyngor yn cynnwys asesiad blynyddol o drefniadau llywodraethu'r Cyngor a'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol sy'n amlygu unrhyw wendidau llywodraethu arwyddocaol. Mae'r Fframwaith hefyd yn amlygu meysydd pellach sy'n dal i fod angen eu gwella er nad ydyn nhw'n wendidau arwyddocaol.

4.1. Mae gennym ni 'Grŵp Llywodraethu' i reoli proses y Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol a datblygiad y Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn barhaus yn ystod y flwyddyn ariannol. Mae'r Grŵp hwn yn cynnwys:

- Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol
- Is-gadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol
- Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd
- Pennaeth Cynllunio Busnes a Pherfformiad
- Pennaeth Cyllid ac Asedau
- Pennaeth Archwilio Mewnol

4.2. Mae'r Grŵp wedi datblygu cynllun gweithredu (Atodiad 1) yn dilyn yr adolygiad diweddaraf o drefniadau llywodraethu. Mae'r cynllun gweithredu'n hyblyg ac efallai y bydd angen ychwanegu ato wrth i faterion godi yn ystod y

flwyddyn gan mai ein bwriad ydi monitro trefniadau llywodraethu drwy gydol y flwyddyn yn hytrach na phroses unigryw ar ddiwedd y flwyddyn.